

Pearson Edexcel GCE

Technoleg Cerddoriaeth

Uwch Gyfrannol

Uned 1: Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 1

Dyddiad rhyddhau: Dydd Mawrth 1 Medi 2015

Amser: 60 awr

Cyfeirnod y Papur

6MT01/01W

Rhaid bod gennych:

Copi o'r recordiad gwreiddiol fel y'i disgrifir ar gyfer Tasg 1A

Cyfarwyddiadau i Athrawon

- Rhaid i'r Portffolio, yn cynnwys Tasgau 1A, 1B ac 1C, gael ei gyflwyno i'w asesu ar ffurf recordiadau stereo ar UN CD SAIN, ynghyd â'r Llyfr Log a'r Ffurflen Ddatganiad.
- Caiff canolfannau eu hatgoffa y dylai cyflwyniad pob ymgeisydd gael ei gyflwyno ar CD ar wahân (NID ar MiniDisc™ na chasét) a rhaid nodi cyfeirnod y papur (6MT01/01W), rhif y ganolfan, enw'r ymgeisydd a rhif yr ymgeisydd yn glir arno.
- Rhaid cyflwyno Tasg 1A fel trac 1, Tasg 1B fel trac 2, a Thasg 1C fel trac 3.
- Rhaid i ganolfannau gadw copiau wrth gefn o holl recordiadau ymgeiswyr ar gyfer Tasgau 1A, 1B ac 1C a ffeiliau meddalwedd patent ar gyfer pob tasg.
- Rhaid gwirio CDau cyn eu hanfon, a'u pecynnu fel na wneir difrod iddynt wrth eu hanfon.
- Rhaid anfon y CD a'r Llyfr Log gyda'r Ffurflen Ddatganiad wedi'i llofnodi at yr arholwr i gyrraedd erbyn 15 Mai 2016.

Cyfarwyddiadau i Ymgeiswyr

- Cwblhewch **bob un o'r TAIR** tasg.
- Cwblhewch y Llyfr Log.
- Llofnodwch y Ffurflen Ddatganiad.

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

- **140** yw cyfanswm y marciau ar gyfer yr uned hon.
- Tasg 1A: Perfformiad Sylweddol wedi'i Ddilysniannu (40 marc).
- Tasg 1B: Recordiad Aml-drac (40 marc).
- Tasg 1C: Trefniant wedi'i Ddilysniannu'n Greadigol (40 marc)
- Cwestiynau 9 a 10 y Llyfr Log (20 marc).

Trowch y dudalen ►

W50545A

©2015 Pearson Education Ltd.

1/



PEARSON

Amodau Rheoledig

Mae gan Uned 1 dair tasg yn y Portffolio Technoleg Cerddoriaeth: 1A – Perfformiad Sylweddiedig (*Realised*) wedi'i Ddilysniannu, 1B – Recordiad Aml-drac ac 1C – Trefniant wedi'i Ddilysniannu'n Greadigol. Hefyd, mae Llyfr Log y mae'n rhaid ei gyflwyno ar y cyd â'r portffolio.

Nid yw'r gofyniad am 'Amodau Rheoledig' yn golygu bod rhaid i'r cyflwyniad gael ei wneud, o'r dechrau i'r diwedd, o dan oruchwyliaeth gaeth yn adran technoleg cerddoriaeth yr ysgol neu'r coleg. Gall gael ei rannu'n fras yn ddwy broses, **'ymchwil a pharatoi'** ac **'ysgrifennu'**, gyda dim ond yr amser sy'n cael ei dreulio ar ran ysgrifennu'r broses yn cyfrif tuag at yr uchafswm o 60 awr a nodir yn y fanyleb.

Ymchwil a pharatoi

Yn fras, dyma unrhyw waith sy'n cael ei wneud cyn cwblhau'r arteffact terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr. Gall yr ymchwil a'r paratoi gael ei wneud y tu allan i'r ganolfan. Nid oes cyfyngiad amser arno. Gall y canlyniadau gael eu cofnodi'n ysgrifenedig neu'n electronig, a gellir mynd â'r rhain i mewn ac allan o'r ganolfan a gellir cyfeirio atynt yn ystod yr amser ysgrifennu rheoledig. Fodd bynnag, rhaid i'r athro/athrawes eu harchwilio, a bod yn fodlon mai gwaith y myfyriwr ei hun ydynt.

Tasg 1A: Perfformiad Sylweddiedig wedi'i Ddilysniannu

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn gweithio allan y rhannau o'r trac sain gwreiddiol, dysgu sut i ddefnyddio'r pecyn dilysniannu, arbrofi ag ansoddau (*timbres*), ymchwilio i'r trac gwreiddiol ac ymarfer y rhannau sydd i'w chwarae i'r dilysniannwr (*sequencer*).

Tasg 1B: Recordiad Aml-drac

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn ymchwilio i'r trac sydd i'w recordio, gwrando ar y gwreiddiol a phenderfynu pa effeithiau a phrosesu a ddefnyddiwyd, paratoi ac ymarfer yr ensemble sydd i'w recordio, gwirio a phrofi offer, dysgu techneg microffonau a'u lleoli, profi lefelau a chael popeth wedi'i osod a'i baratoi ar gyfer y broses recordio go iawn.

Tasg 1C: Trefniant wedi'i Ddilysniannu'n Greadigol

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn gwrando ar y trac ysgogi gwreiddiol, gwrando ar gerddoriaeth yn yr arddulliau sydd wedi cael eu pennu, arbrofi â syniadau alawol neu harmonig addas, arbrofi â datblygiadau i'r ysgogiad gwreiddiol a gweithio allan ddrafftiau bras o'r trefniant.

Ysgrifennu

Yn fras, dyma unrhyw waith sy'n gysylltiedig â chwblhau'r arteffact terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr.

Mae gan fyfyrwyr uchafswm o 60 awr o amser ysgrifennu. Rhaid i athrawon gadw cofnod ysgrifenedig i wneud yn siŵr *nad aethpwyd dros* amser ysgrifennu pob myfyriwr. Gall y 60 awr gael eu rhannu ar draws y 3 tasg fel y bo'n briodol – dylai'r 20 awr y dasg a nodir yn y fanyleb gael ei ddefnyddio fel canllaw, ond nid yw'n orfodol – ond ni ddylid mynd dros y **cyfanswm** o 60 awr ar gyfer y portffolio cyfan.

Bydd amser ysgrifennu'n digwydd yn y ganolfan, naill ai mewn amser gwersi yn yr amserlen neu y tu allan iddynt, beth bynnag sy'n fwyaf cyfleus i bawb. Mae'n rhaid iddo fod o dan oruchwyliaeth.

Tasg 1A: Perfformiad Sylweddol wedi'i Ddilysniannu

Mae unrhyw fewnbwn o nodau i'r pecyn dilysniannu neu olygu unrhyw ddata yn dilyn hynny, gan gynnwys golygu ansoddau, traw, rhythm, gwybodaeth rheolydd ac ati, a fydd yn ffurfio rhan o'r recordiad terfynol a anfonir at yr arholwr, yn cael ei ystyried yn rhan o 'ysgrifennu' y dasg. Mae sboncio terfynol (cymysgu i lawr) y dilysniant gorffenedig i ffeil sain stereo hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer ei gyflwyno yn cael ei ystyried yn rhan o hyn.

Tasg 1B: Recordiad Aml-drac

Daw unrhyw beth a fydd yn ffurfio rhan o'r trac sain gorffenedig sydd i'w anfon at yr arholwr o fewn yr amser 'ysgrifennu'. Bydd hyn yn cynnwys recordio'r cerddorion, unrhyw olygu yn dilyn hynny gan gynnwys trimio traciau, gosod lefelau, ychwanegu effeithiau a phrosesu, cymysgu a chreu meistr. Mae sboncio terfynol (cymysgu i lawr) y recordiad gorffenedig i ffeil sain stereo hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer ei gyflwyno yn cael ei ystyried yn rhan o hyn.

Tasg 1C: Trefniant wedi'i Ddilysniannu'n Greadigol

Daw unrhyw beth sy'n cael ei fewnbynnu i'r trac wedi'i ddilysniannu terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr o fewn yr amser 'ysgrifennu'. Bydd hyn yn cynnwys amser sy'n cael ei dreulio'n mewnbynnu'r holl syniadau a gafodd yr ymgeisydd yn ystod yr amser paratoi ac unrhyw addasiadau, golygu ac ychwanegiadau a wneir wedi hynny i'r trefniant wedi'i ddilysniannu terfynol. Mae sboncio terfynol (cymysgu i lawr) y trefniant gorffenedig i ffeil sain stereo hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer ei gyflwyno yn cael ei ystyried yn rhan o hyn.

Llyfr Log

Nid yw cwblhau'r Llyfr Log yn cyfrannu at y cyfyngiad 60 awr, ond mae'n rhaid ei gwblhau o dan oruchwyliaeth gyfyngedig.

Ffurflen Ddatganiad

Rhaid i ymgeiswyr lofnodi'r Ffurflen Ddatganiad ar dudalen 16 y Llyfr Log gan ddatgan mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith. Ni fydd athrawon yn cydlofnodi'r datganiad os nad yw'r gwaith yn ymddangos yn waith gwreiddiol.

Tasg 1A: Perfformiad Sylweddedig wedi'i Ddilysniannu

Rather Be (yn cynnwys Jess Glynne) – Clean Bandit

Gan ddefnyddio recordiad gwreiddiol Clean Bandit yn ysgogiad i chi (trac 1 o Rather Be (yn cynnwys Jess Glynne) 2014, Atlantic Records. Hawlfraint 2013 Warner Music UK Limited.) gwnewch sylweddiad (*realisation*) wedi'i ddilysniannu o'r gân hon, gan gynnwys pob llais, rhan offerynnol a nodwedd gynhyrchu.

Dylech geisio cydweddu (*match*) ansoddau (*timbres*) a manylion perfformiad mor agos ag sy'n bosibl â'r recordiad gwreiddiol, ond rhaid i chi ddefnyddio ansawdd offerynnol priodol yn lle'r llais.

Mae sgôr fras wedi cael ei chynnwys i'ch cynorthwyo. Fodd bynnag, fe'ch atgoffir mai tasg glywedol (*aural*) yw hon yn bennaf.

Fel sy'n cael ei ddangos yn y sgôr fras, rhaid i'ch sylweddiad wedi'i ddilysniannu orffen ym mar 89 gyda'r prif lais solo. Peidiwch â chynnwys rhan y synth ym mar 89. Nid oes angen i chi greu sylweddiad o'r darn ar y diwedd sy'n dechrau yn 2:56.

- Rhaid i chi fewnbynnu'r **holl** ddata wedi'u dilysniannu trwy chwarae neu raglennu'r rhannau eich hun. **Ni chewch** ddefnyddio unrhyw ffeiliau MIDI sy'n cael eu lawrlwytho o'r rhyngwyd neu eu copïo o unrhyw ffnhonnell arall.
- Ni chewch ddefnyddio dolenni sain neu MIDI wedi'u rhaglennu ymlaen llaw yn y dasg hon.
- Cewch ddefnyddio samplu i atgynhyrchu technegau cynhyrchu lle bo hynny'n briodol.
- Rhaid i bob sampl gynnwys un traw yn unig; rhaid dilysniannu unrhyw rythmau.
- Bydd unrhyw samplau sy'n hirach nag un nodyn yn cael eu hystyried yn sain barhaus ac felly ni fydd y rhain yn cael eu hasesu.
- Ni chewch samplu sain o unrhyw fersiwn masnachol o'r ysgogiad.

Dylech gyflwyno eich perfformiad gorffenedig fel trac 1 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 1.

(Cyfanswm ar gyfer Tasg 1A = 40 marc)

Rather Be

♩ = 115

Fel y'i perfformiwyd gan
Clean Bandit yn cynnwys Jess Glynne

Prif Lais

Llais Cefndir

Syntheseiddydd

Unawd Piano

Piano

Llinynnau

Bas

Offerynnau taro

Drymiau

5

P. Lais

Ah _____ Oh _____

Llin.



8

$\text{♩} = 121$

P. Lais

We're a thou - sand miles from com - fort, _____ we have

Synth.



11

P. Lais

trav - elled land and sea. _____ But as long as you are with

Synth.



14

P. Lais

me, _____ there's no place I'd ra-ther be. _____

Synth.

17

P. Lais

I would wait for-ev - er, ex - al - ted in the scene.____ As

Dr.

patrwm hi hat yn datblygu drwy'r cyfan



21

P. Lais

long as I am with__ you, my heart con-tin - ues to beat.____

Dr.

sim.



25

P. Lais

With ev ery step we take Ky - o-to to The Bay, stro - lling so cas - ual - ly.____

Synth.

Bas

Off. Taro

sim.

Dr.

28

P. Lais 

We're diff-erent and the same

Synth. 

Bas 

Dr. 



30

P. Lais 

gave you a - noth-er name, switch up the bat - te - ries.

Synth. 

Piano 

Bas 

Dr. 

33

P. Lais
If you_ gave_ me a chance_ I would take it. It's a__ shot in the dark

Llais C.
If take it. It's

U. Piano

Piano

Bas

Dr.



36

P. Lais
but I'll make it. Know with all__ of your heart_

Llais C.
make it.

U. Piano

Piano

Bas

Dr.

38

P. Lais

Llais C.

U. Piano

Piano

Bas

Dr.

— you can't shame me; when I am with you there's
when I am with you there's



40

P. Lais

Llais C.

U. Piano

Piano

Bas

Dr.

no place I'd ra - ther be. N-n-n-no no, no place I'd ra - ther be.
no place I'd ra - ther be. N-n-n-no no, no place I'd ra - ther be.

llenwi ychwanegol drwm gwifrau

43

P. Lais

Llais C.

Piano

Bas

Dr.

N-n-n - no__ no, no place I'd ra - ther be. N-n-n - no__ no,
 N-n-n - no__ no, no place I'd ra - ther be. N-n-n - no__ no,



46

P. Lais

Llais C.

Piano

Llin.

Bas

Dr.

no place I'd ra ther be. Ooh_____ We
 no place I'd ra ther be.

49
P. Lais
staked out on a mis - sion, to find our in - ner peace. —

Bas

53
P. Lais
Make it ev - er - last ing, — so no - thing's in - com - plete.

Llin.

Bas

56
P. Lais
It's ea - sy be - ing with you, —

Bas

59
P. Lais
sa - cred sim - pli - ci - ty. — As long as we're to - ge -

62
P. Lais
ther, — there's no place I'd ra - ther be. —

65
P. Lais
With ev - ery step we take Ky - o - to to The Bay,

Bas

67

P. Lais

stro - lling so cas - ual - ly. _____ We're diff-erent and the same

Bas



70

P. Lais

gave you a-noth-er name, switch up_ the bat - te - ries. _____

Llais C.

te - ries. _____

Piano

Bas



73

Barrau 73-80: ailadrodd barrau 33-40 gydag amrywiadau

P. Lais



81

P. Lais

N-n-n - no_ no, no place I'd ra - ther be. N-n-n - no_ no,

Llais C.

N-n-n - no_ no, no place I'd ra - ther be. N-n-n - no_ no,

84

P. Lais

Llais C.

no place I'd ra-ther be. N-n-n - no__ no, no place I'd ra-ther be.

no place I'd ra-ther be. N-n-n - no__ no, no place I'd ra-ther be.



87

P. Lais

Gorffennwch y dasg fan hyn.

When I__ am with you_ there's no place I'd ra-ther be._____

Tasg 1B: Recordiad Aml-drac

Gwnewch recordiad o ddarn o gerddoriaeth o'ch dewis chi mewn arddull sy'n gysylltiedig â Maes Astudio 2: Arddulliau Cerddoriaeth Boblogaidd ers 1910.

Rhaid i chi recordio darn o gerddoriaeth sydd wedi'i ryddhau'n gyffredinol, neu ddarn safonol cydnabyddedig o roc, pop neu jazz. **Ni** all hwn fod yn gyfansoddiad gwreiddiol gan y myfyriwr.

Gall deunydd ysgogi gael ei drefnu mewn ffordd addas i'r adnoddau sydd ar gael ond ni fydd y trefniant yn cael ei asesu. Rhaid i'r adnoddau sy'n cael eu dewis fod yn ddigon i greu trefniant dichonadwy ac adnabyddadwy.

Dylai eich recordiad:

- para rhwng 2 a 4 munud
- defnyddio o leiaf 8 trac
- bod ag o leiaf 4 trac sy'n cael eu dal gan ddefnyddio microffonau
- gwneud defnydd o dechnegau tros-seinio (*overdub*)
- defnyddio cerddorion byw yn unig, ac ni ddylai gynnwys unrhyw berfformiadau wedi'u dilyniannu gan MIDI, dolenni sain na samplau
- bod yn gynhyrchiad stereo sy'n rhydd rhag sŵn, gan ddefnyddio effeithiau a phrosesu priodol.

Mae'n rhaid mai chi yn unig sy'n gyfrifol am y broses recordio, o ddal y sain i gymysgu i lawr. Ni chaniateir i ymgeiswyr rannu ffeiliau sain.

Dylech gyflwyno'ch recordiad gorffenedig fel trac 2 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 1.

(Cyfanswm ar gyfer Tasg 1B = 40 marc)

Tasg 1C: Trefniant wedi'i Ddilysniannu'n Greadigol

Mae gofyn i chi greu trefniant gwreiddiol sy'n para rhwng 2 a 3 munud ar sail **un** o'r ysgogiadau canlynol ac yn **un** o'r arddulliau canlynol:

Ysgogiadau

- Happy (Pharrell Williams)
- Smells Like Teen Spirit (Nirvana)

Mae taflen arweiniol ar gyfer pob ysgogiad wedi cael ei chynnwys i'ch cynorthwyo. Gall rhai recordiadau fod yn wahanol i'r daflen arweiniol.

Arddull

- *Electro Pop* o tua 2009 ymlaen (rydym yn awgrymu gwranddo ar: Lady Gaga, Owl City, Calvin Harris)
- *Rock'n'Roll* o'r 1950au (rydym yn awgrymu gwranddo ar: Elvis Presley, Little Richard a The Platters)

Rhaid i'r dasg hon gael ei dilysniannu.

Cofiwch, os ydych yn defnyddio unrhyw samplau a dolenni a recordiwyd ymlaen llaw, fod yn rhaid iddynt gael eu haddasu (*manipulated*)/eu llunio (*shaped*)/eu golygu/eu prosesu er mwyn cael marciau. Rhaid i bob sampl a dolen fod heb freindaliadau ac ni ddylent gael eu cymryd o unrhyw recordiadau masnachol. Ni all unrhyw samplau neu ddolenni fod yn hirach na dau far.

Yn y dasg hon, **ni** chaniateir perfformiadau byw sydd wedi'u recordio fel traciau sain parhaus neu sydd wedi'u golygu i ffurfio traciau sain parhaus.

Dylech gyflwyno'ch trefniant gorffenedig fel trac 3 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 1.

(Cyfanswm ar gyfer Tasg 1C = 40 marc)

CYFANSWM AR GYFER Y PAPUR = 120 MARC

Happy

Pharell Williams

8 F⁷ Fm⁷ B^b C B^b

It might seem cra - zy what I'm 'bout to say. —

6 F⁷ Fm⁷ B^b C B^b

Sun- shine she's here — you can take a break. — I'm a

10 Fm⁷ B^b C B^b

hot air bal- loon — that could go to space. — With the air

14 F⁷ Fm⁷ B^b

— like I don't care — ba-by by the way. —

C B^b

Be-cause I'm

18 D^bmaj⁷ C⁷(sus4) F⁷

Clap a-long if — you feel like a room with-out a roof.

Hap- py. — Be-cause I'm

22 D^bmaj⁷ C⁷(sus4) F⁷

Clap a-long if — you feel like hap-pi-ness is the truth.

Hap- py. — Be-cause I'm

26 $D\flat\text{maj}7$ $C7(\text{sus}4)$ $F7$

Clap a- long_ if_ you know what hap-pi-ness is to you.
Hap- py. Be-cause I'm

30 $D\flat\text{maj}7$ $C7(\text{sus}4)$ $F7$

Clap a-long if_ you feel like that's what you wan-na do.
Hap- py.

Smells Like Teen Spirit

Kurt Cobain, Krist Novoselic
a Dave Grohl

F B \flat A \flat D \flat sim

8 Load up on guns, bring your friends. It's fun to lose and to pretend.

5

8 She's over bored, self assured. Oh, no, I know a dirty word.

9

8 Hel-lo hel-lo hel-lo. How low? Hel-lo hel-lo hel-lo. How low?

13

8 Hel-lo hel-lo hel-lo. How low? Hel-lo hel-lo,

16

8 hel-lo. With the lights out it's less dangerous. Here we are

19

8 now; entertain us. I feel stupid and contagious. Here we are

23

8 now; entertain us. A mulatto, an albino

26

8 no, a mosquito, my libido yeah!

TUDALEN WAG

Gwnaed pob ymdrech i gysylltu â deiliaid hawlfraint er mwyn cael eu caniatâd i ddefnyddio deunydd hawlfraint. Bydd Edexcel, un o gynhyrchion Pearson Education Ltd., yn fodlon unioni unrhyw wallau neu hepgoriadau, os caiff wybod amdanynt, a chynnwys unrhyw unioni o'r fath mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol.